**RHIF COFRESTRU CWMNI: 02380564 (Lloegr a Chymru)**
**RHIF COFRESTRU ELUSEN: 1128527**

# DATGANIADAU ARIANNOL
# AM Y FLWYDDYN A DDIWEDDODD
# 31 MAWRTH 2025

**AR GYFER**

**CARTREFI CYMUNEDOL CYMRU**

Bevan Buckland LLP (Archwilwyr Statudol)
Llawr Daear Cardigan House
Castle Court
Parc Menter Abertawe
Abertawe
SA7 9LA

**CARTREFI CYMUNEDOL CYMRU**

## CYNNWYS Y DATGANIADAU ARIANNOL
## AM Y FLWYDDYN A DDIWEDDODD 31 MAWRTH 2025


| | Tudalen |
|---|---|
| **Adroddiad yr Ymddiriedolwyr** | 1 i 6 |
| **Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol** | 7 i 9 |
| **Datganiad Gweithgareddau Ariannol** | 10 |
| **Datganiad Sefyllfa Ariannol** | 11 |
| **Datganiad Llif Arian** | 12 |
| **Nodiadau i'r Datganiad Llif Arian** | 13 |
| **Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol** | 14 i 28 |
| **Datganiad Manwl o Weithgareddau Ariannol** | 29 i 30 |

**CARTREFI CYMUNEDOL CYMRU**

**ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR**
**AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2025**

Cartrefi Cymunedol Cymru yw llais cymdeithasau tai nid-er-elw a sefydliadau cymunedol cydfuddiannol yng Nghymru.

Mae ein haelodau yn darparu bron 174,000 o gartrefi i fwy na 300,000 o bobl, gan gartrefu un mewn deg ym mhob rhanbarth o Gymru. Mae'r cartrefi hyn yn cynnwys tai â gofal, cymorth a/neu oruchwyliaeth, gan gefnogi tenantiaid gydag anghenion amrywiol i fyw'n dda yn eu cymunedau.

Mae ein haelodau yn gweithio ledled Cymru, gan ddarparu cartrefi a gwasanaethau i ystod eang o bobl. Fel eu corff masnach, rydym yn ymladd dros y pethau maent eu hangen i gefnogi eu cymunedau, ac i sicrhau y gallwn gyda'n gilydd gyflawni ein gweledigaeth.

Fel llais dylanwadol, rydym yn gweithio i sicrhau cyllid sefydlog a digonol, ynghyd â fframwaith polisi sy'n cefnogi buddsoddiad mewn cartrefi newydd a chartrefi a gwasanaethau cymorth sy'n bodoli eisoes.

Rydym hefyd yn gweithredu fel hyb i gysylltu â'n haelodau i ganfod datrysiadau ar y cyd i'r heriau a wynebwn.

**Ein gweledigaeth hirdymor**

Gwneud Cymru yn wlad lle mae cartref da yn hawl sylfaenol i bawb.

**Ein cenhadaeth**

Yn unol â'n Cynllun Corfforaethol 2023-2027, mae ein ffocws ar y camau gweithredu fydd yn cefnogi ein haelodau i wneud y gwahaniaeth mwyaf yn eu cymunedau. Byddwn yn gweithio'n galed i sicrhau fframwaith cyllid a pholisi sefydlog a digonol i gefnogi buddsoddiad mewn cartrefi newydd a chartrefi a gwasanaethau cymorth sy'n bodoli eisoes.

**Amcanion elusennol**

Ein hamcanion elusennol yw hyrwyddo – mewn ffordd sy'n gydnaws â chanllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Elusennau ac er budd y cyhoedd yng Nghymru – y sector tai gwirfoddol a lliniaru caledi ariannol drwy ddarpariaeth y sector o dai cymdeithasol cost isel yn neilltuol, ond nid yn llwyr.

Gwnawn hyn drwy:
- ddarparu gwasanaethau a digwyddiadau, addysg, hyfforddiant, gwybodaeth, cyngor a chymorth i ddarparwyr tai o'r fath yng Nghymru;
- annog a hwyluso darpariaeth, adeiladu, gwella a rheoli tai o'r fath gan gymdeithasau tai yng Nghymru.

Yn hyn, caiff yr ymadrodd "sector tai gwirfoddol" ei ddehongli yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Elusennau ac mae'n golygu elusennau a mudiadau gwirfoddol (gydag amcanion cysylltiedig â thai).

Mae "elusennau" yn gyrff a sefydlwyd ar gyfer dibenion elusennol yn llwyr yn unol â chyfraith Lloegr a Chymru.

Mae "mudiadau gwirfoddol" yn gyrff annibynnol a sefydlwyd ar gyfer dibenion sy'n ychwanegu gwerth i'r gymuned yn ei chyfanrwydd, neu adran sylweddol o'r gymuned, ac nad yw eu cyfansoddiad yn caniatáu iddynt wneud elw ar gyfer ei ddosbarthu'n breifat. Nid yw mudiadau gwirfoddol yn cynnwys llywodraeth leol nac awdurdodau statudol eraill.

Wrth lunio ein hamcanion, ystyriodd ymddiriedolwyr ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus yn cynnwys 'Budd cyhoeddus: rhedeg elusen (PB2)'.

**Cynllun Corfforaethol 2023/24 - 2027/28**

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys pedair nod allweddol i ychwanegu eglurder at ein gwaith dros y cyfnod:
1. Sicrhau'r dulliau, cyllid a pholisi sy'n cefnogi cartrefi cymdeithasau tai ansawdd da.
2. Dylanwadu ar yr amgylchedd polisi fel y gall cymdeithasau tai barhau i ddarparu cartrefi sy'n fforddiadwy a rhoi cymorth effeithlon i denantiaid sy'n wynebu caledi ariannol.
3. Hyrwyddo ymddiriedaeth mewn cymdeithasau tai a'u cefnogi i adeiladu partneriaethau cryf yn lleol.
4. Sicrhau fod CHC yn gorff aelodaeth ystwyth a chynhwysol ac yn gyflogwr rhagorol.

Yn fewnol, mae CHC yn trefnu ei waith drwy gynllun cyflenwi blynyddol. Mae hyn yn nodi'r prosiectau allweddol y byddwn yn eu cynnal i'n symud ymlaen tuag at gyflawni ein nodau a'n cenhadaeth a gweledigaeth drwyddi draw. Rhoddir adroddiad am y cynllun cyflenwi i'r Bwrdd ddwywaith y flwyddyn.

## Yr hyn a gyflawnwyd a'n perfformiad

Gwnaethom gynnydd sylweddol eleni ar y pedair nod allweddol a amlinellir yn ein cynllun corfforaethol. Bu ffocws ein gwaith ar ddylanwadu ar yr amgylchedd allanol ar ran ein haelodau a hefyd eu cysylltu gydag arbenigedd, gwneuthurwyr penderfyniadau a chymheiriaid eraill.

Yn 2024/25 cafwyd llwyddiannau nodedig yn dylanwadu yn cynnwys sicrhau:
- Y buddsoddiad cyfalaf uchaf erioed o £390m ar gyfer y Grant Tai Cymdeithasol a'r Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol ac ymchwilio gyda Llywodraeth Cymru ac aelodau a fyddai modelau cyllido eraill yn ddichonadwy ar gyfer cyflenwad newydd;
- Gweithredu gan yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr a gyhoeddodd Hysbysiad Rhybudd i gwmnïau cyfreithiol a chyfreithwyr am arfer gwael cysylltiadau digymell gyda thenantiaid i geisio gwneud hawliadau am gyflwr gwael;
- Cynnydd o £21.3m yng nghyllideb 25/26 y Grant Cymorth Tai fel canlyniad i ymgyrch Materion Tai mewn partneriaeth gyda Cymorth Cymru;
- Argymhellion i Lywodraeth Cymru gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar wella data ar angen tai a chyllid aml-flwyddyn wedi ei neilltuo ar gyfer y Grant Cymorth Tai.

Rydym wedi datblygu ein sylfaen tystiolaeth ar gyfer datrysiadau polisi, yn cynnwys:
- Adeiladu ein sylfaen tystiolaeth ar renti cymdeithasol fforddiadwy;
- Ein ymchwil mewnol diweddaraf ar gostau byw, Argyfwng sy'n cynyddu, i ddylanwadu ar yr ymrwymiadau gwleidyddol ar lesiant cyn Etholiad Cyffredinol 2024;
- Cyd-ariannu ymchwil Sefydliad Bevan i fodelu effaith ymyriadau polisi ar dlodi yng Nghymru;
- Cyhoeddi cynnwys i gynyddu dealltwriaeth o gymdeithasau tai, yn cynnwys ein adroddiad ar gyflogau uwch aelodau staff, gwella cyfrifon cynhwysfawr 22/23 a blogiau esbonio;
- Sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen a chynnal arolwg o'n aelodaeth ehangach, er mwyn deall barn a blaenoriaethau ein tenantiaid ar gyfer dulliau i fesur bodlonrwydd tenantiaid.

Rydym wedi cysylltu â'n haelodau i:
- Baratoi ar gyfer Safonau'r Gymraeg, yn cynnwys tair sesiwn sbotolau ar-lein gyda Ateb Cymru ar gyfer cydweithwyr yn y meysydd cyfathrebu, adnoddau dynol a llywodraethiant;;
- Arbenigwyr mewn ymgysylltu â thenantiaid, drwy ein cynnig ar-lein. Mae hyn wedi arwain at i rai o'n haelodau symud ymlaen gyda gwaith deorfa dinasyddion;
- Cydweithwyr yn y sector, i ddylanwadu ar ein dull o ymgyrchu ar y Grant Cymorth Tai, polisi rhent cymdeithasol, y ddeddfwriaeth arfaethedig ar ddigartrefedd a chynigion Comisiwn y Gyfraith;
- Hyrwyddo arfer gwych ymysg ein haelodau, drwy ddigwyddiadau ar-lein, gweithdai mewn cynadleddau a'n blog, yn cynnwys: Academi Adra; Iechyd a llesiant staff, Clwyd Alyn; Gostwng ymddygiad gwrthgymdeithasol yn defnyddio systemau ffob, grŵp Cadarn; Model anogaeth Hafod.

Yn ystod y flwyddyn, rydym hefyd wedi parhau i weithio i sicrhau fod CHC yn gorff aelodaeth ystwyth a chynhwysol ac yn gyflogwr rhagorol, yn cynnwys:
- Cynyddu'r nifer o bartneriaid masnachol sy'n gweithio gyda ni o 7 i 11 er mwyn llywio ein gwaith dylanwadu a rhoi cyngor a chymorth i'n haelodau;
- Gweithio gyda'n haelodau i ddatblygu, adolygu a chytuno ar swyddogaeth a threfniadau ariannu CHC er mwyn sicrhau sefydlogrwydd hirdymor;
- Ennill achrediad Cyber Essentials Basic a dechrau paratoi ar gyfer achrediad Cyber Essentials Plus yn 2025/26.
- Gwneud cynnydd ar weithredu canfyddiadau ein hadolygiad llywodraethiant 2023 a pharhau i gyflawni ar ein strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a rhoi adroddiad i'n bwrdd ar gynnydd.

## Llais Aelodau

Mae ein cynnig ymgysylltu aelodau wedi rhoi cyfleoedd i bob cymdeithas tai ymgysylltu â ni mewn dros 1,800 o achosion eleni. Mae hyn yn cynnwys:
- 46 digwyddiad ar-lein, a gafodd eu gweld dros 400 gwaith fel sesiynau wedi eu recordio ar ein llyfrgell cynnwys Hyb Tai;
- 18 cyfarfod wyneb yn wyneb o'r Cymunedau Aelodau, gyda bron 350 yn mynychu;
- 4 cyfarfod wyneb yn wyneb o'r rhwydwaith Aelodau Bwrdd a 3 sesiwn gwybodaeth fyr ar-lein i aelodau bwrdd, gan ddenu 51 aelod bwrdd.

Drwy ein 4 cynhadledd wyneb yn wyneb fe wnaethom groesawu dros 300 aelod fel rhan o dros 560 o gynrychiolwyr.

Caiff adborth o'n harolwg pyls ymysg Prif Swyddogion Gweithredol ei gasglu ar ganol a hefyd ar ddiwedd y flwyddyn. Ar ddiwedd y flwyddyn, dywedodd 100% o'r rhai a ymatebodd fod yr aelodaeth yn werth am arian a'u bod yn gadarnhaol am gyswllt eu sefydliad gyda CHC.

**Edrych i'r dyfodol**

Mae ein cynllun cyflenwi 2025/26 yn nodi'r prosiectau y bwriadwn eu cynnal dros y flwyddyn ariannol nesaf i sicrhau cynnydd ar ein nodau hirdymor.

Mae'r prosiectau allweddol yn cynnwys:
- Diffinio rhestr arfaethedig o argymhellion tymor byr a thymor canol fydd yn datgloi datblygu cartrefi newydd;
- SATC 2023 i gael ei gostio'n llawn a dynodi a symud ymlaen ar lwybrau i gyllid;
- Newidiadau ymarferol a chymesur i bolïau a rheoleiddiad sy'n arwain at welliannau i ansawdd cartrefi;
- Deddfwriaeth newydd ar ddiogelwch adeiladau y gellir ei rhoi ar waith, sy'n derbyn adnoddau ac yn gwneud gwahaniaeth ymarferol i ddiogelwch tenantiaid;
- Llunio diwygiadau i sicrhau llwybr cynaliadwy i roi diwedd ar ddigartref gyda'r adnoddau i gymdeithasau tai i gyflenwi yn cyd-fynd â hynny;
- Sefydlu llinyn neilltuol o ymgysylltu aelodau i gipio a rhannu hyn a ddysgwyd ar ymgysylltu tenantiaid a llunio ein datblygu polisi;
- Datblygu naratif ymgyrch sy'n dweud stori genedlaethol y sector ac yn galluogi ein haelodau i ddweud eu stori leol;
- Cael dylanwad cadarnhaol ar faniffestos a pholisïau'r pleidiau i sicrhau amgylchedd gweithredu cadarnhaol i gymdeithasau tai cyn y Rhaglen Lywodraethu nesaf;
- Ymgysylltu a llywio staff CHC yng ngwaith y sefydliad drwy wella cyfathrebu mewnol;
- Adolygu a diwygio diwylliant y sefydliad i fod yn gydnaws gyda'n gweledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd.

Rydym hefyd yn ailfywiogi'r gwasanaethau a ddarperir drwy ein is-gwmni. Mae'r prosiectau yn cynnwys:
- Parhau i gyflenwi gwasanaeth partneriaeth masnachol effeithiol drwy sicrhau partneriaid newydd, gan ddarparu gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid ac adeiladu hynny ar gyfer blynyddoedd y dyfodol.
- Cynyddu incwm masnachol drwy bartneriaid masnachol drwy adeiladu ar y strategaeth fasnachol bresennol.
- Sicrhau y caiff ein is-gwmni ei lywodraethu'n dda a'i fod yn cydymffurfio gyda phob gofyniad statudol a chyfreithiol.

**Strategaeth ac Adolygiad Polisi**

Y llynedd fe wnaethom ddechrau'r broses o adolygu a diwygio'r strategaethau corfforaethol allweddol sy'n cefnogi cyflenwi ein Cynllun Corfforaethol. Cafodd strategaethau Materion Allanol, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a Masnachol eu cytuno erbyn hyn ac maent yn eu lle. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r gwaith hwn yn 25/26.

Fe wnaethom hefyd ddechrau rhaglen o adolygu llawlyfr CHC, sy'n cynnwys ein holl bolisïau adnoddau dynol ar gyfer rheolwyr llinell a staff. Byddwn yn cwblhau'r gwaith hwn yn ystod 25/26.

Mae polisïau eraill a adolygwyd eleni yn cynnwys:
- Polisi cronfeydd wrth gefn
- Polisi buddsoddi
- Polisi gwerthuso Bwrdd

**Adolygiad Ariannol**

Mae'r elusen wedi adrodd incwm net ar gyfer blwyddyn 2024/25 o £211,487 o gymharu ag incwm net o £282,898 yn y flwyddyn flaenorol. Mae hyn cyn enillion (colledion) actiwaraidd ar y cynllun budd diffiniedig. Yn dilyn yr addasiad actiwaraidd, mae'r gwarged am y flwyddyn yn £267,487 o gymharu â diffyg o £133,898 yn y cyfnod adrodd blaenorol.

**Polisi Cronfeydd wrth Gefn**

Mae'r ymddiriedolwyr yn adolygu'r Polisi Cronfeydd wrth Gefn bob blwyddyn. Mae'r Polisi yn dweud "ein bod bob amser yn anelu i ddal isafswm lefel o gronfeydd wrth gefn mewn arian parod, ac eithrio'r atebolrwydd pensiwn a gofnodwyd ar y fantolen, yn ddigon i dalu am o leiaf dri mis o ofynion contractiol pe byddai'r annhebygol yn digwydd a bod yr elusen yn dirwyn i ben ac yn peidio masnachu. Mae'r prif gostau yn cynnwys cyflogau/taliadau dileu swyddi ac ymrwymiadau gweithredol y dyfodol.

Bydd yr elusen hefyd yn ceisio cynnal cronfeydd arian wrth gefn pellach o leiaf £200,000 ychwanegol i alluogi cynnal gwasanaethau i aelodau pe byddai dirywiad, darparu cyllid ar gyfer buddsoddiad cyfalaf priodol i helpu ateb amcanion elusennol a galluogi ailstrwythuro ar weithgareddau'r elusen pe byddai'r amgylchedd gweithredu a'r amgylchedd yn newid yn sylweddol a hefyd roi sicrwydd y gall yr elusen gyflawni unrhyw oblygiadau ariannol a ddaw yn ddyledus.

Pe byddai cronfeydd arian parod wrth gefn yn disgyn dan y lefelau a nodir yn y polisi hwn, bydd yr ymddiriedolwyr yn ceisio adfer y sefyllfa o fewn cyfnod o 3 blynedd.

### Busnes Hyfyw

Rydym yn falch i adrodd gwarged yn erbyn Cronfeydd Heb Gyfyngiad o £273,997 am y flwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2025 sy'n cyfrannu at y lefelau cronfeydd wrth gefn sydd ei angen gan ein polisi cronfeydd wrth gefn ac argymhellion y Comisiwn Elusennau. Dengys y datganiadau ariannol fod gan yr elusen gronfeydd wrth gefn heb gyfyngiad o £488,687 ar ddiwedd y flwyddyn, gyda darpariaeth ar gyfer ymrwymiadau pensiwn y dyfodol o £361,000. Roedd y cronfeydd cyfyngedig a ddaliwyd ar ddiwedd y flwyddyn yn gyfanswm o £17,809. Fel bob amser, roedd gennym ddaliad arian sylweddol ar ddiwedd y flwyddyn o £1,340,602 oherwydd bod ein haelodau wedi talu eu ffioedd aelodaeth ymlaen llaw ar ddechrau'r flwyddyn. Mae'r Bwrdd felly yn fodlon ei bod yn briodol paratoi'r cyfrifon ar sail busnes hyfyw.

## STRWYTHUR, LLYWODRAETHIANT A RHEOLAETH

### Dogfen llywodraethiant

Caiff yr elusen ei rheoli gan ei dogfen rheoli, gweithred ymddiriedolaeth, ac mae'n ffurfio cwmni cyfyngedig, cyfyngedig drwy warant fel y'i diffinnir gan Ddeddf Cwmnïau 2006.

### Cyfansoddiad elusen

Mae Cartrefi Cymunedol Cymru yn gwmni elusennol a gyfyngir drwy warant. Sefydlwyd y cwmni dan Femorandwm Cymdeithasu, a sefydlodd amcanion a phwerau y cwmni elusennol, a chaiff ei lywodraethu dan ei Erthyglau Cymdeithasu.

Cafodd Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu Cartrefi Cymunedol Cymru eu mabwysiadu gan Benderfyniad Arbennig dyddiedig 20 Mawrth 2008. Cawsant eu diwygio'n ddilynol gan Benderfyniad Arbennig ar 1 Rhagfyr 2016, 6 Tachwedd 2017 a 21 Chwefror 2019.

### Recriwtio a phenodi ymddiriedolwyr newydd

Mae gan y cyfarwyddwr, fel Ymddiriedolwyr yr elusen, reolaeth o'r elusen a chânt yn awr eu galw ar y cyd yn Fwrdd Cartrefi Cymunedol Cymru (CHC).

Mae'r Ymddiriedolwyr yn rheoli'r elusen a'i chronfeydd a phan yn gyflawn bydd heb fod yn llai na saith a heb fod yn fwy na deuddeg o unigolion. Caiff hyd at ddeg eu hethol gan yr Ymddiriedolwyr o blith aelodau bwrdd neu aelodau staff cymdeithasau tai yn unol â gweithdrefnau'n ymwneud â dulliau enwebu ac ethol a benderfynir gan yr Ymddiriedolwyr (a ymgorfforir yn ein Rheolau Sefydlog) a gall hyd at bedwar fod yn annibynnol a'u penodi drwy benderfyniad yr Ymddiriedolwyr a basiwyd mewn cyfarfod a gynullwyd yn gywir o'r Ymddiriedolwyr.

Caiff yr Ymddiriedolwyr eu grymuso i benodi a symud Ymddiriedolwyr yn unol â darpariaethau'r Erthyglau Cymdeithasu. Mae holl Ymddiriedolwyr yr elusen yn derbyn cynefino a hyfforddiant ac nid oes unrhyw Ymddiriedolydd yn derbyn cydnabyddiaeth ariannol am eu gwaith gyda'r elusen.

## MANYLION CYFEIRNOD A GWEINYDDOL

**Rhif Cofrestru Cwmni**
02380564 (Lloegr a Chymru)

**Rhif Cofrestru Elusen**
1128527

**Swyddfa gofrestredig**
7-8 Park Place
Caerdydd CF10 3DP

**Ymddiriedolwyr**

| | |
|---|---|
| Andrew Martyn-Johns (Cyn Gadeirydd) | Annibynnol (Ymddiswyddodd Tachwedd 2024) |
| Gerraint James Oakley (Cadeirydd) | Annibynnol (Penodwyd Tachwedd 2024) |
| Alan Brunt (Is-gadeirydd) | Cymdeithas Tai Bron Afon |
| Kyle Burgess (Trysorydd) | Grŵp Tai Cadarn |
| Andrew Vye | Grŵp Pobl (Ymddiswyddodd Tachwedd 2024) |
| Lesley Kirkpatrick | Cymdeithas Tai Dewis Cyntaf |
| Stacy Barry | Cartrefi Cymoedd Merthyr (Penodwyd Tachwedd 2024) |
| Rachel Storr-Barber | Cymdeithas Tai Clwyd Alyn (Penodwyd Tachwedd 2024) |
| Sarah Schofield | Cymdeithas Tai Adra (Penodwyd Tachwedd 2024) |
| Sharon Lee | Tai Aelwyd (Penodwyd Tachwedd 2024) |
| Aled Rowlands | Annibynnol |
| Hugh Barrett | Annibynnol |

**Ysgrifennydd Cwmni**

| | |
|---|---|
| Katrina Michael | Ymddeolodd Mawrth 2025 |
| Jane Shorrock | Penodwyd Mawrth 2025 |

**Uwch Dîm Rheoli**

| | |
|---|---|
| Stuart Ropke | Prif Weithredwr |
| Clarissa Corbisiero | Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Polisi a Materion Allanol |
| Jane Shorrock | Pennaeth Cyllid a Chymorth Busnes |
| Rhea Stevens | Cyfarwyddwr Materion Allanol |
| Bethan Proctor | Pennaeth Polisi a Materion Allanol |
| Elly Lock | Pennaeth Polisi a Materion Allanol |
| Louise Price-David | Pennaeth Gwasanaethau Aelodau a Phartneriaethau |

**Archwilwyr**
Bevan Buckland LLP (Archwilwyr Statudol)
Llawr Daear Cardigan House
Castle Court
Parc Menter Abertawe
Abertawe
SA7 9LA

**Bancwyr**
HSBC UK Bank plc
1 Centerary Square
Birmingham
B1 1HQ

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R YMDDIRIEDOLWYR

Mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr Cartrefi Cymunedol Cymru) ar gyfer dibenion cyfraith cwmni) yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifeg y Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifeg a Dderbynnir yn Gyffredinol (SORP) yn y Deyrnas Unedig) yn cynnwys Safon Adrodd Ariannol 102 "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n weithredol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon".

Mae cyfraith cwmni yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Dan y gyfraith honno, etholwyd yr ymddiriedolwyr i baratoi'r datganiadau ariannol yn unol ag Arfer Cyfrifeg a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig (Safonau Cyfrifeg y Deyrnas Unedig a chyfraith berthnasol).

Dan gyfraith cwmni rhaid i ymddiriedolwyr beidio cymeradwyo'r datganiadau ariannol os nad ydynt yn fodlon eu bod yn rhoi golwg wir a theg o gyflwr busnes y cwmni elusennol a'r adnoddau a dderbyniwyd a defnydd adnoddau, yn cynnwys incwm a gwariant, y cwmni elusennol ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hynny, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr:

- ddethol polisïau cyfrifeg addas a'u gweithredu mewn modd cyson;
- arsylwi'r dulliau ac egwyddorion yn SORP Elusennau;
- ffurfio barn ac amcangyfrifon sy'n rhesymol a doeth;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw os nad yw'n amhriodol tybio y bydd y cwmni elusennol yn parhau mewn busnes.

**DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU YMDDIRIEDOLWYR – parhad**

Mae’r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifeg cywir sy’n datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw amser sefyllfa ariannol y cwmni elusennol a’u galluogi i sicrhau fod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio gyda Deddf Cwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau’r cwmni elusennol ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

Cyn belled ag y gŵyr yr ymddiriedolwyr:

- nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y cwmni elusennol yn gwybod amdani; ac
- mae’r ymddiriedolwyr wedi cymryd pob cam y dylent fod wedi eu cymryd i ddod i wybod am unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu fod yr archwilwyr yn gwybod am yr wybodaeth honno.

Cymeradwywyd drwy orchymyn y bwrdd ymddiriedolwyr ar 1 Medi 2025, llofnodwyd ar 23 Hydref 2025 a llofnodwyd ar ei ran gan:

G J Oakley - Ymddiriedolydd

## ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ALLANOL I AELODAU CARTREFI CYMUNEDOL CYMRU

**Barn**

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Cartrefi Cymunedol Cymru (y 'cwmni elusennol') ar gyfer y flwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2024 sy'n cynnwys y Datganiad Gweithgareddau Ariannol, y Datganiad Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llif Arian a nodiadau i'r datganiadau ariannol, yn cynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifeg sylweddol. Y fframwaith adrodd ariannol a weithredwyd yw cyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifeg y Deyrnas Unedig (Ymarfer Cyfrifeg a Argymhellir yn Gyffredinol y Deyrnas Unedig), yn cynnwys Safon Adrodd Ariannol 102 'Y Safon Adrodd Ariannol sy'n weithredol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon'.

Yn ein barn ni mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi golwg wir a theg o gyflwr busnes y cwmni elusennol fel ar 31 Mawrth 2024 a'i adnoddau a dderbyniwyd a defnydd a cynnwys ei incwm a gwariant, am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi eu paratoi'n gywir yn unol â'r Arfer Cyfrifeg a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig, yn cynnwys Safon Adrodd Ariannol 102 'Y Safon Adrodd Ariannol sy'n weithredol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon'; a
- wedi eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

**Sail y farn**

Fe wnaethom gynnal ein harchwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) (ISAs (UK)) a chyfraith berthnasol. Caiff ein cyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yng nghyfrifoldebau'r Archwilwyr ar gyfer archwilio adran datganiadau ariannol ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol o'r cwmni elusennol yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y Deyrnas Unedig, yn cynnwys Safon Moesegol y FRC, a rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol a phriodol i roi sail ar gyfer ein barn.

**Casgliadau'n ymwneud â busnes hyfyw**

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, daethom i'r casgliad fod defnydd yr ymddiriedolwyr o'r sail busnes hyfyw o gyfrifeg wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith a wnaethom, nid ydym wedi dynodi unrhyw ansicrwydd sylweddol yn ymwneud â digwyddiadau nac amodau a fedrai, ar ben eu hunain neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o pryd yr awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Caiff ein cyfrifoldebau ni a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr yng nghyswllt busnes hyfyw eu disgrifio yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

**Gwybodaeth arall**

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am yr wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol, heblaw'r datganiadau ariannol ac Adroddiad ein Harchwilwyr Annibynnol ar hynny.

Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a gaiff ei nodi yn benodol fel arall yn ein hadroddiad, nid ydym yn datgan unrhyw fath o sicrwydd a chasgliad ar hynny.

Mewn cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen yr wybodaeth arall ac wrth wneud hynny, ystyried os yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson gyda'r datganiadau ariannol neu yr ymddengys fod ein gwybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad neu fel arall wedi ei gam-ddatgan yn sylweddol. Os dynodwn unrhyw anghysondebau sylweddol neu anghysondebau sylweddol tebygol, mae'n ofynnol i ni benderfynu os yw hyn yn achosi camddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os, yn seiliedig ar y gwaith a wnaethom, y deuwn i'r casgliad fod camddatganiad sylweddol o'r wybodaeth arall yma, mae'n ofynnol i ni adrodd y ffaith honno. Nid oes gennym ddim i'w adrodd yn y cyswllt hwn.

**Barn ar faterion eraill a ragnodwyd gan Ddeddf Cwmnïau 2006**

Yn ein barn ni, yn seiliedig ar y gwaith a gynhaliwyd wrth gynnal yr archwiliad hwn:

- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad i'r Ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol y caiff y datganiadau ariannol eu paratoi ar eu cyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol; a
- cafodd Adroddiad yr Ymddiriedolwyr ei baratoi yn unol â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

**Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt drwy eithriad**
Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r cwmni elusennol a'i amgylchedd a gafwyd wrth gynnal yr archwiliad, nid ydym wedi dynodi unrhyw gamddatganiadau sylweddol yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr.

Nid oes gennym ddim i'w adrodd yng nghyswllt y materion dilynol lle mae Deddf Cwmnïau 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i ni adrodd i chi os, yn ein barn ni:

- na chafodd cofnodion cyfrifeg digonol eu cadw ac na dderbyniwyd gwybodaeth ddigonol ar gyfer ein harchwiliad gan ganghennau nad ydym wedi ymweld â nhw; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno gyda'r cofnodion a ffurflenni cyfrifeg; neu
- na chafodd rhai datganiadau o gydnabyddiaeth ariannol ymddiriedolwyr a nodir gan y gyfraith eu gwneud; neu
- nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau rydym eu hangen ar gyfer ein harchwiliad; neu
- nad oedd gan yr ymddiriedolwyr hawl i fanteisio ar yr eithriad cwmnïau bach o'r gofyniad i baratoi Adroddiad Strategol neu wrth baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr.

**Cyfrifoldebau Ymddiriedolwyr**
Fel yr esbonnir yn llawnach yn Natganiad Cyfrifoldebau Ymddiriedolwyr, mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni elusennol ar gyfer dibenion cyfraith cwmni) yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi golwg wir a theg, ac am unrhyw reolaeth fewnol y mae'r ymddiriedolwyr yn penderfynu sydd ei hangen i alluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad sylweddol, p'un ai drwy dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel sy'n gymwys, faterion yn gysylltiedig â busnes hyfyw a defnyddio sail busnes hyfyw o gyfrifeg os nad yw'r ymddiriedolwyr naill ai yn bwriadu datod y cwmni elusennol neu i ddod â gweithrediadau i ben, neu nad oes ganddynt unrhyw ddewis arall realistig heblaw gwneud hynny.

**Ein cyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol**
Ein amcanion yw cael sicrwydd rhesymol am p'un ai yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad sylweddol, p'un ai oherwydd twyll neu gamgymeriad, ac yn cyhoeddi adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhaliwyd yn unol gyda ISAs (UK) bob amser yn canfod camddatganiad sylweddol pan mae'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad a chânt eu hystyried yn sylweddol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid disgwyl iddynt yn rhesymol ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a gymerir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Caiff i ba raddau y gall ein gweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, yn cynnwys twyll ei nodi isod:

**I ba raddau yr ystyriwyd y gallai'r archwiliad ganfod afreoleidd-dra, yn cynnwys twyll**
Rydym yn dynodi ac asesu risgiau cam-ddatganiad sylweddol o'r Datganiadau Ariannol, p'un ai oherwydd twyll neu gamgymeriad, ac yna gynllunio a chynnal gweithdrefnau archwilio i ymateb i'r risgiau hynny, yn cynnwys cael tystiolaeth archwilio sy'n ddigonol a phriodol i roi sail ar gyfer ein barn.

Fe wnaethom drafod annibyniaeth ein harchwiliad gan gydymffurfio gyda Safon Moesegol Diwygiedig 2024 gydag aelodau'r tîm ymgysylltu wrth gynllunio'r archwiliad a monitro ein hannibyniaeth yn barhaus ar hyd y broses.

**Dynodi ac asesu risgiau posibl yn gysylltiedig ag afreoleidd-dra**
Wrth ddynodi ac asesu risgiau camddatganiad sylweddol yng nghyswllt afreoleidd-dra, yn cynnwys twyll a diffyg cydymffurfiaeth gyda chyfreithiau a rheoliadau, roedd ein gweithdrefnau yn cynnwys y dilynol:

- dynodi, gwerthuso a chydymffurfio gyda chyfreithiau a rheoliadau a ph'un ai oeddent yn gwybod am unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth;
- canfod ac ymateb i risgiau twyll ac os oes ganddynt wybodaeth o unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth o dwyll neu dwyll honedig;
- y mesurau rheoli mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau yn gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfiaeth gyda chyfreithiau a rheoliadau;
- trafod ymysg y tîm ymgysylltu sut a lle y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangoswyr posibl o dwyll;
  cael dealltwriaeth o'r fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol y mae'r Elusen yn gweithredu ynddynt, gyda ffocws ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny oedd ag effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau'r Elusen. Roedd y cyfreithiau a rheoliadau allweddol y gwnaethom eu hystyried yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf Cwmnïau y Deyrnas Unedig a deddfwriaeth berthnasol ar drethiant.

**Ymateb archwiliad i'r risgiau a ddynodwyd**
Yn ogystal â'r uchod, roedd ein gweithdrefnau i ymateb i'r risgiau a ddynodwyd yn cynnwys y dilynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth gyda chyfreithiau a rheoliadau perthnasol;
- holi rheolwyr am ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl; cyflawni gweithdrefnau dadansoddi i ddynodi unrhyw berthnasoedd annisgwyl a allai ddangos risgiau o gamddatganiad sylweddol oherwydd twyll;
- darllen cofnodion cyfarfodydd sy'n ymwneud â llywodraethiant;
- wrth asesu risg twyll drwy wrth-wneud rheolwyr ar fesurau rheoli, gan brofi pa mor briodol yw cofnodion dyddlyfrau ac addasiadau eraill;
- asesu os yw dyfarniadau a wnaethpwyd mewn amcangyfrifon cyfrifeg yn dangos unrhyw ragfarn bosibl a;
- gwerthuso rhesymeg weithredol unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu tu allan i'r llwybr gweithredu arferol.

Fe wnaethom hefyd gyfathrebu cyfreithiau a rheoliadau a ddynodwyd ac unrhyw risgiau twyll posibl i holl aelodau'r tîm ymgysylltu a pharhau'n effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfiaeth gyda chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad, adolygu'r datgeliadau yn y datganiad ariannol a phrofi i gefnogi dogfennaeth i asesu cydymffurfiaeth.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau ar gyfer archwilio y datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o'n Hadroddiad i'r Archwilwyr Annibynnol.

**Y defnydd o'n hadroddiad**
Gwneir yr adroddiad hwn yn llwyr i aelodau'r cwmni elusennol, fel corff, yn unol â Phennod 3 Rhan 16 Deddf Cwmnïau 2006. Cynhaliwyd ein gwaith archwilio fel y gallem ddatgan i aelodau'r cwmni elusennol y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu nodi iddynt mewn adroddiad archwilwyr ac am ddim diben arall. I'r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn na thybio cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw'r cwmni elusennol ac aelodau'r cwmni elusennol fel corff, ar gyfer ein gwaith archwilio, neu ar gyfer y farn yr ydym wedi ei ffurfio.

Llinos Williams (Uwch Archwilydd Statudol)
dros ac ar ran Bevan Buckland LLP
Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Statudol
Llawr Daear Cardigan House
Castle Court
Parc Menter Abertawe
Abertawe
SA7 9LA

Dyddiad: 24 Hydref 25

**CARTREFI CYMUNEDOL CYMRU**

**DATGANIAD GWEITHGAREDDAU ARIANNOL**
**AM Y FLWYDDYN A DDIWEDDODD MAWRTH 2025**

| | Nodiadau | Cronfeydd heb gyfyngiad £ | Cronfeydd â chyfyngiad £ | 2025 Cyfanswm cronfeydd £ | 2024 Cyfanswm cronfeydd £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **INCWM A GWADDOLION** | | | | | |
| Cyfraniadau a chymynroddion | 3 | 31,900 | - | 31,900 | 3,397 |
| **Gweithgareddau elusennol** | 6 | | | | |
| Gweithgareddau elusennol | | 1,984,064 | - | 1,984,064 | 1,897,192 |
| Gweithgareddau masnachu eraill | 4 | 54,072 | - | 54,072 | 45,816 |
| Incwm buddsoddi | 5 | 51,305 | - | 51,305 | 28,533 |
| **Cyfanswm** | | 2,121,341 | - | 2,121,341 | 1,974,938 |
| **GWARIANT AR** | | | | | |
| Codi cronfeydd | 7 | 54,072 | - | 54,072 | 45,816 |
| **Gweithgareddau elusennol** | 8 | | | | |
| Gweithgareddau elusennol | | 1,849,272 | 6,510 | 1,855,782 | 1,646,224 |
| **Cyfanswm** | | 1,903,344 | 6,510 | 1,909,854 | 1,692,040 |
| **INCWM/(GWARIANT) NET** | | 217,997 | (6,510) | 211,487 | 282,898 |
| **Enillion/(colledion) cydnabyddedig eraill** | | | | | |
| Enillion/(colledion) actiwaraidd ar gynlluniau budd diffiniedig | | 56,000 | - | 56,000 | (149,000) |
| **Symudiad net mewn cronfeydd** | | 273,997 | (6,510) | 267,487 | 133,898 |
| **CYSONI CRONFEYDD** | | | | | |
| Cyfanswm cronfeydd a ddygwyd ymlaen | | 214,690 | 24,319 | 239,009 | 105,111 |
| **CYFANSWM CRONFEYDD A GARIWYD YMLAEN** | | 488,687 | 17,809 | 506,496 | 239,009 |

**CARTREFI CYMUNEDOL CYMRU**

**DATGANIAD SEFYLLFA ARIANNOL**
**31 MAWRTH 2025**

| | Nodiadau | Cronfeydd heb gyfyngiad £ | Cronfeydd â chyfyngiad £ | 2025 Cyfanswm cronfeydd £ | 2024 Cyfanswm cronfeydd £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **ASEDAU SEFYDLOG** | | | | | |
| Asedau anniriaethol | 15 | - | - | - | 3,306 |
| Asedau diriaethol | 16 | 14,785 | - | 14,785 | 23,785 |
| Buddsoddiadau | 17 | 1 | - | 1 | 1 |
| | | 14,786 | - | 14,786 | 27,092 |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | | | |
| Dyledwyr | 18 | 884,805 | - | 884,805 | 1,038,619 |
| Buddsoddiadau | 19 | 500,000 | - | 500,000 | - |
| Arian yn y banc | | 1,322,793 | 17,809 | 1,340,602 | 1,536,287 |
| | | 2,707,598 | 17,809 | 2,725,407 | 2,574,906 |
| **CREDYDWYR** | | | | | |
| Symiau a ddaw'n ddyledus o fewn un flwyddyn | 20 | (197,314) | - | (197,314) | (186,586) |
| **ASEDAU CYFREDOL NET** | | 2,510,284 | 17,809 | 2,528,093 | 2,388,320 |
| **CYFANSWM ASEDAU LLAI RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL** | | 2,525,070 | 17,809 | 2,542,879 | 2,415,412 |
| **CRONIADAU AC INCWM GOHIRIEDIG** | 22 | (1,675,383) | - | (1,675,383) | (1,638,403) |
| **RHWYMEDIGAETH PENSIWN** | 24 | (361,000) | - | (361,000) | (538,000) |
| **ASEDAU/(RHWYMEDIGAETHAU) NET** | | 488,687 | 17,809 | 506,496 | 239,009 |
| **CRONFEYDD** | 23 | | | | |
| Cronfeydd heb gyfyngiad | | | | 488,687 | 214,690 |
| Cronfeydd â chyfyngiad | | | | 17,809 | 24,319 |
| **CYFANSWM CRONFEYDD** | | | | 506,496 | 239,009 |

Cafodd y datganiadau ariannol hyn eu paratoi yn unol â'r darpariaethau sy'n weithredol i gwmnïau elusennol sy'n destun i'r drefn cwmnïau bach.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Bwrdd Ymddiriedolwyr ar 1 Medi 2025 ac awdurdod eu cyhoeddi ar 23 Hydref 2025 a chawsant eu llofnodi ar ei ran gan

G J Oakley - Ymddiriedolydd

**CARTREFI CYMUNEDOL CYMRU**

**DATGANIAD LLIF ARIAN**
**AM Y FLWYDDYN A DDIWEDDODD 31 MAWRTH 2025**

| | Nodiadau | 2025<br>£ | 2024<br>£ |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Arian a gynhyrchwyd o weithrediadau | 1 | 253,010 | (354,572) |
| Arian net a ddarparwyd gan/(ddefnyddiwyd mewn) gweithgareddau gweithredu | | 253,010 | (354,572) |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu asedau sefydlog diriaethol | | - | (26,511) |
| Llog a dderbyniwyd | | 51,305 | 28,533 |
| Lleoli adnau cyfnod sefydlog | | (500,000) | - |
| Arian net a (ddefnyddiwyd)/ddarparwyd gan weithgareddau buddsoddi | | (448,695) | 2,022 |
| **Newid mewn arian a chyfwerth arian yn y cyfnod adrodd** | | (195,685) | (352,550) |
| **Arian a chyfwerth arian ar ddechrau'r cyfnod adrodd** | | 1,536,287 | 1,888,837 |
| **Arian a chyfwerth arian ar ddiwedd y cyfnod adrodd** | | 1,340,602 | 1,536,287 |

Mae'r nodiadau yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn

## NODIADAU I'R DATGANIAD LLIF ARIAN
## AM Y FLWYDDYN A DDIWEDDODD 31 MAWRTH 2025

### 1. CYSONI INCWM NET I LIF ARIAN NET O WEITHGAREDDAU GWEITHREDU

| | 2025<br>£ | 2024<br>£ |
|---|---|---|
| **Incwm net ar gyfer y cyfnod adrodd (yn unol â'r Datganiad Gweithgareddau Ariannol)** | 211,487 | 282,898 |
| **Addasiadau ar gyfer:** | | |
| Costau dibrisiant | 12,306 | 16,620 |
| Colled ar waredu asedau sefydlog | - | 845 |
| Llog a dderbyniwyd | (51,305) | (28,533) |
| Gostyngiad/(cynnydd)) mewn dyledwyr | 153,814 | (467,569) |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn credydwyr | 47,708 | (44,833) |
| Gwahaniaeth rhwng tâl pensiwn a chyfraniadau arian | (121,000) | (114,000) |
| **Arian net a ddarparwyd gan/(ddefnyddiwyd mewn) gweithrediadau** | 253,010 | (354,572) |

### 2. DADANSODDIAD O NEWIDIADAU MEWN CRONFEYDD NET

| | Ar 1.4.24<br>£ | Llif arian<br>£ | At 31.3.25<br>£ |
|---|---|---|---|
| **Arian net** | | | |
| Arian yn y banc | 1,536,287 | (195,685) | 1,340,602 |
| | 1,536,287 | (195,685) | 1,340,602 |
| **Adnoddau hylif** | | | |
| Adneuon a gynhwyswyd mewn arian | - | - | - |
| Buddsoddiadau asedau cyfredol | - | 500,000 | 500,000 |
| | - | 500,000 | 500,000 |
| **Cyfanswm** | 1,536,287 | 304,315 | 1,840,602 |

## 1. POLISÏAU CYFRIFEG

**Sail Paratoi**

Paratowyd datganiadau ariannol y corff elusennol, sy'n gorff budd cyhoeddus dan FRS 102, yn unol â SORP Elusennau (FRS 102) 'Cyfrifeg ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o Arfer a Argymhellir gweithredol i elusennau yn paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol gweithredol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS) (daeth i rym 1 Ionawr 2019'), Safon Adrodd Ariannol 102 'Y Safon Adrodd Ariannol gweithredol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon' a Deddf Cwmnïau 2006'. Cafodd y datganiadau ariannol eu paratoi dan y confensiwn cost hanesyddol.

**Paratoi datganiadau ariannol cyfunol**

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys gwybodaeth am Cartrefi Cymunedol Cymru fel cwmni unigol ac nid ydynt yn cynnwys gwybodaeth ariannol gyfunol fel rhiant y grŵp. Mae'r elusen yn eithriedig dan Adran 399(2A) Deddf Cwmnïau 2006 ac Offeryn Statudol – 2008/629 Rheoliad 19 o'r gofynion i baratoi datganiadau ariannol cyfunol.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi adolygu sefyllfa'r is-gwmni (Cartrefi Cymunedol Cymru – Polisi ac Ymchwil Cyf) ar ddiwedd y flwyddyn ac yn teimlo bod y gwahaniaeth rhwng y swm a gyfrannwyd i'r elusen o gymharu â'r incwm i'r is-gwmni yn ansylweddol i haeddu cyfuno.

Roedd cyfanswm incwm yr is-gwmni yn gyfanswm o £86,762 (2024: £540) gyda threuliau o £86,759 (2024: £52,756). Mae asedau net yr is-gwmni ar ddiwedd y flwyddyn yn £dim (2024: £dim).

**Incwm**

Caiff yr holl incwm ei gydnabod yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol unwaith mae gan yr elusen hawl i'r cronfeydd, cafodd unrhyw amodau perfformiad a roddir ar yr eitem(au) incwm eu cyflawni, mae'n debygol y caiff yr incwm ei dderbyn ac y gellir mesur y swm yn ddibynadwy.

Caiff incwm o grantiau'r llywodraeth a grantiau eraill, p'un ai yn grantiau 'cyfalaf' neu grantiau 'refeniw', ei gydnabod pan mae gan yr elusen hawl i'r cronfeydd, y cafodd unrhyw amodau perfformiad a osodir ar y grantiau eu cyflawni, mae'n debygol y caiff yr incwm ei dderbyn a bod y swm y gellir ei fesur yn ddibynadwy ac y gellir mesur y swm yn ddibynadwy ac ni chaiff ei ohirio.

Caiff incwm ffioedd aelodaeth ei gyfrifo ar sail croniadau a chaiff ei gydnabod yng nghyfnod yr aelodaeth.

Caiff incwm o gyrsiau a chynadleddau ei gydnabod pan gynhelir y digwyddiad dan sylw.

Caiff llog ar gronfeydd a gedwir ar adnau ei gynnwys pan mae'n dderbyniadwy a gall yr elusen fesur y swm yn ddibynadwy; mae hyn fel arfer pan geir hysbysiad o'r llog a dalwyd neu sy'n daladwy gan y banc.

**Gwariant**

Caiff rhwymedigaethau eu cydnabod fel gwariant cyn gynted â bod rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol yn ymrwymo'r elusen i'r gwariant hwnnw, mae'n debygol y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd mewn setliad a gellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy. Caiff gwariant ei gyfrifo ar sail croniadau a chafodd ei ddosbarthu dan benawdau sy'n cronni'r holl gost yn gysylltiedig gyda'r categori. Lle na fedrir priodoli costau yn uniongyrchol i benawdau neilltuol cawsant eu dyrannu i weithgareddau ar sail sy'n gyson gyda defnydd adnoddau.

Mae gwariant elusennol yn cynnwys y costau hynny a gaiff yr elusen wrth ddarparu ei weithgareddau, yn gostau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol a hefyd gostau cymorth anuniongyrchol.

**Dyrannu a dosrannu costau cymorth**

Costau cymorth yw'r swyddogaethau hynny sy'n cynorthwyo gwaith yr elusen ond nad ydynt yn gwneud gweithgareddau elusennol yn uniongyrchol. Mae costau cymorth yn cynnwys costau swyddfa gefn, cyllid, personél, cyflogres a chostau llywodraethiant sy'n cefnogi gweithgareddau'r elusen. Rhoddir nodyn o'r costau hyn yn nodyn 9.

**Asedau sefydlog anniriaethol**

Darperir amorteiddio yn dilyn y cyfraddau blynyddol dilynol er mwyn dileu pob ased dros ei amcangyfrif oes ddefnyddiol.
Meddalwedd cyfrifiaduron – 3 blynedd llinell syth

**Asedau sefydlog diriaethol**

Darperir dibrisiant ar y cyfraddau blynyddol dilynol er mwyn dileu pob ased dros ei amcangyfrif oes ddefnyddiol.

| | | |
|---|---|---|
| Ffitiadau a gosodion | - | 20% balans gostyngol |

## 1. POLISÏAU CYFRIFEG - parhad

**Asedau sefydlog diriaethol**
Offer cyfrifiadurol - 25% llinell syth

Caiff asedau mwy na £1,000 eu cyfalafu.

**Eithriad parti cysylltiedig**
Mae'r cwmni elusennol wedi manteisio ar eithriad, dan delerau Safon Adrodd Ariannol 102 'Y Safon Adrodd Ariannol sy'n weithredol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon', i beidio datgelu trafodion parti cysylltiedig gydag is-gwmnïau sy'n eiddo llawn o fewn y grŵp.

**Trethiant**
Caiff yr elusen ei heithrio o dreth ar incwm ac enillion a ddaw o fewn adran 505 Deddf Trethi 1988 neu adran 252 Deddf Trethiant Enillion Taladwy 1992 i'r graddau y cânt eu cymhwyso i'r amcanion elusennol.

**Cyfrifeg cronfa**
Mae cronfeydd heb gyfyngiad ar gael i'w defnyddio ar ddisgresiwn yr Ymddiriedolaeth i hybu amcanion cyffredinol yr Elusen ac na chafodd eu dynodi ar gyfer dibenion eraill.

Mae cronfeydd dynodedig yn gronfeydd heb gyfyngiad a glustnodwyd gan yr Ymddiriedolwyr ar gyfer dibenion neilltuol a ddaw mewn cyfnodau yn y dyfodol.

Cronfeydd â chyfyngiad yw cronfeydd y mae cyfyngiadau penodol arnynt a osodwyd gan roddwyr neu a gafodd eu codi gan yr elusen ar gyfer dibenion neilltuol. Caiff nod a defnydd pob cronfa gyfyngedig eu rhoi yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.

**Costau pensiwn a buddion ôl-ymddeol eraill**
Ar gyfer cynlluniau budd-dal diffiniedig y symiau a godir i'r Datganiad Gweithgareddau Ariannol yw'r costau gwasanaeth cyfredol a cholledion ar setliadau a chwtogiadau. Cânt eu cynnwys fel rhan o gostau staff. Caiff costau gwasanaeth y gorffennol eu cydnabod yn uniongyrchol yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol os cafodd y buddion eu breinio. Os na chafodd y buddion eu breinio yn syth, caiff y costau eu cydnabod dros y cyfnod nes bod breinio yn digwydd. Caiff cost llog a'r adenilliad disgwyliedig ar asedau eu dangos fel swm net costau cyllid arall neu gredydau ger llog. Caiff adenillion a cholledion actiwaraidd eu cydnabod yn syth yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol.

Caiff cynlluniau budd diffiniedig eu cyllido, gydag asedau'r cynllun yn cael eu dal ar wahân i rai yr elusen, mewn cronfeydd ar wahân a weinyddir gan ymddiriedolwyr. Caiff asedau cynllun pensiwn eu mesur ar werth teg a chaiff rhwymedigaethau eu mesur ar sail actiwaraidd yn defnyddio dull uned amcanol a'i ostwng ar gyfradd gyfwerth â chyfradd gyfredol adenilliad ar fond corfforaethol ansawdd uchel neu o werth cyfatebol a thymor i rwymedigaethau'r cynllun. Ceir y prisiadau actiwaraidd o leiaf bob tair blynedd a chânt eu diweddaru ar ddyddiad pob mantolen. Caiff yr ased neu rwymedigaeth budd diffiniedig dilynol, net o'r dreth ohiriedig gysylltiedig, eu cyflwyno ar wahân ar ôl asedau net eraill ar wyneb y fantolen.

**Incwm Gohiriedig**
Mae incwm gohiriedig yn cynrychioli incwm a dderbyniwyd ond nas enillwyd fel ar ddiwedd y flwyddyn. Mae incwm gohiriedig yn bennaf yn cynnwys incwm ar ffioedd aelodaeth a dderbyniwyd ymlaen llaw yn y cyfnod aelodaeth.

**Statws Cyfreithiol yr Elusen**
Mae'r Elusen yn gwmni cyfyngedig drwy warant ac nid oes ganddi unrhyw gyfalaf cyfranddaliadau. Pe byddai'r elusen yn dirwyn i ben, mae'r rhwymedigaeth yng nghyswllt y warant wedi ei gyfyngu i £1 fesul aelod o'r elusen.

**Buddsoddiadau**
Caiff buddsoddiadau eu cynnwys yn y cyfrifon ar werth marchnad. Lle cânt eu dal fel buddsoddiad parhaus cânt eu cynnwys o fewn Asedau Sefydlog. Caiff enillion heb eu gwireddu a ddelir eu cynnwys ar wahân i Incwm Buddsoddi dan 'Enillion Eraill Cydnabyddedig'.

Caiff y buddsoddiad yn yr is-gwmni ei gofnodi ar werth yr asedau net ar y dyddiad y daeth yr is-gwmni i'r grŵp.

**Dyledwyr**
Caiff dyledwyr masnach a dyledwyr eraill eu cydnabod ar werth y setliad dyledus.



parhad ...

## 1. POLISÏAU CYFRIFEG – parhad

**Arian yn y banc ac mewn llaw**
Mae arian yn y banc ac arian mewn llaw yn cynnwys arian a buddsoddiadau tymor byr hylif iawn, gydag aeddfedrwydd byr o dri mis neu lai o’r dyddiad caffael neu agor y cyfrif adnau neu gyfrif tebyg.

**Buddsoddiadau asedau cyfredol**
Buddsoddiadau asedau cyfredol yw buddsoddiadau y mae’r elusen yn eu dal ar gyfer ailwerthu neu aros ei gwerthu ac arian neu gyfwerth arian gyda dyddiad aeddfedu o lai nag un flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys arian adnau a chyfwerth arian a fydd yn aeddfed mewn llai nag un flwyddyn a ddelir ar gyfer dibenion buddsoddiad risg dibwys yn hytrach nag i ateb ymrwymiadau arian parod tymor byr fel y deuant yn ddyledus.

**Credydwyr a darpariaethau**
Caiff credydwyr a darpariaethau eu cydnabod lle mae gan yr elusen rwymedigaeth bresennol fel canlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol fydd yn debygol o arwain at drosglwyddo cronfeydd i drydydd parti ac y gall y swm dyledus i setlo’r rhwymedigaeth gael ei fesur neu ei amcangyfrif yn ddibynadwy. Fel arfer caiff credydwyr a darpariaethau eu cydnabod ar eu swm setliad ar ôl caniatáu am unrhyw ostyngiad masnach sy’n ddyledus.

**Offerynnau Ariannol**
Dewisodd yr elusen weithredu darpariaethau Adran 11 ‘Offerynnau Ariannol Sylfaenol’ ac Adran 12 ‘Materion Eraill Offerynnau Ariannol’ FRS 102 i’w holl offerynnau ariannol.

Caiff offerynnau ariannol eu cydnabod yn natganiad sefyllfa ariannol yr elusen pan ddaw’r elusen yn rhan o ddarpariaethau contractiol yr offeryn.

Caiff asedau a rhwymedigaethau ariannol eu gwrthbwyso, gyda’r symiau net a gyflwynir yn y datganiadau ariannol, lle mae hawl cyfreithiol orfodadwy i wrthbwyso’r symiau cydnabyddedig a bod bwriad i setlo ar sail net neu i wireddu’r ased a setlo’r rhwymedigaeth ar yr un pryd.

**Asedau ariannol sylfaenol**
Fel arfer caiff asedau ariannol sylfaenol, sy’n cynnwys masnach ac eitemau derbyniadwy eraill a balansau arian a banc eu mesur i ddechrau ar bris y trafodiad yn cynnwys costau trafodiad a chânt wedyn eu cario ar gost wedi ei amorteiddio yn defnyddio’r dull llog gweithredol os nad yw’r trefniant yn cyfrif fel trafodiad ariannu, lle caiff y trafodiad ei fesur ar werth presennol derbyniadau’r dyfodol wedi eu gostwng ar gyfradd llog y farchnad.

Caiff dyledwyr masnach, benthyciadau a symiau derbyniadwy eraill sydd â thaliadau sefydlog neu benderfynadwy na chaiff eu dyfynnu mewn marchnad actif eu dosbarthu fel “benthyciadau a symiau derbyniadwy’. Caiff benthyciadau a symiau derbyniadwy eu mesur ar gost wedi amorteiddio yn defnyddio’r dull llog gweithredol, llai unrhyw amhariad.

Caiff llog ei gydnabod drwy gymhwyso’r gyfradd log weithredol, heblaw am symiau derbyniadwy tymor byr lle byddai cydnabod llog yn ansylweddol. Mae’r dull llog gweithredol yn ddull o gyfrif cost wedi amorteiddio ar gyfer offeryn dyled ac o ddyrannu’r incwm llog dros y cyfnod perthnasol. Y gyfradd log weithredol yw’r gyfradd sy’n gostwng yn union yr amcangyfrif o dderbyniadau arian y dyfodol drwy oes ddisgwyliedig yr offeryn dyled i’r swm cario net ar gydnabyddiaeth ddechreuol.

**Amhariad asedau ariannol**
Caiff asedau ariannol, heblaw’r rhai a gaiff eu dal ar werth teg drwy elw a cholled, eu hasesu ar gyfer dangosyddion o amhariad ar bob dyddiad diwedd adrodd.

Caiff asedau ariannol eu hamharu lle mae tystiolaeth wrthrychol, fel canlyniad i un neu fwy o ddigwyddiadau a fu ar ôl y gydnabyddiaeth ddechreuol o’r ased ariannol, yr effeithiwyd ar yr amcangyfrif o lif arian y dyfodol. Os amherir ar ased, y golled amharu yw’r gwahaniaeth rhwng y swm cario a gwerth presennol yr amcangyfrif llif arian wedi ei ostwng ar gyfradd log weithredol wreiddiol yr ased. Caiff y golled amhariad ei chydnabod mewn elw neu golled.

Os oes gostyngiad yn y golled amhariad yn deillio o ddigwyddiad ar ôl cydnabod yr amhariad, caiff yr amhariad ei wrthdroi. Mae’r gwrthdroi o’r fath fel nad yw’r swm cario cyfredol yn fwy nag a fyddai’r swm cario wedi bod pe byddai’r amhariad heb gael ei gydnabod yn flaenorol. Caiff y gwrthdroi mewn amhariad ei gydnabod mewn elw neu golled.



parhad ...

## 1. POLISÏAU CYFRIFEG - parhad

**Dadgydnabod asedau ariannol**
Dim ond pan fydd yr hawliau contractiol i'r llif arian o'r ased yn dod i ben neu y cânt eu setlo y caiff asedau ariannol eu dadgydnabod, neu pan fo'r elusen yn trosglwyddo'r ased ariannol ac yn sylweddol yr holl risgiau a gwobrau perchnogaeth i gorff arall, neu os caiff rhai risgiau a gwobrau sylweddol o berchnogaeth eu cadw ond y cafodd rheolaeth o'r ased ei throsglwyddo i barti arall a all werthu'r ased yn llwyr i drydydd parti heb fod yn gysylltiedig.

**Dosbarthiad rhwymedigaethau ariannol**
Caiff rhwymedigaethau ariannol eu dosbarthu yn ôl sylwedd y trefniadau contractiol yr ymrwymwyd iddynt.

**Rhwymedigaethau ariannol sylfaenol**
Caiff rhwymedigaethau ariannol sylfaenol, yn cynnwys symiau masnach a symiau eraill taladwy a benthyciadau gan gyd gwmnïau'r grŵp a ddosberthir fel dyled, eu cydnabod i ddechrau ar bris y trafodiad os nad yw'r trefniant yn cyfrif fel trafodiad ariannu, lle caiff yr offeryn dyled ei fesur ar werth presennol derbyniadau'r dyfodol wedi eu gostwng ar gyfradd llog y farchnad.

Yn ddilynol caiff offerynnau dyled eu cario ar gost wedi ei amorteiddio, yn defnyddio'r dull cyfradd log weithredol. Mae symiau taladwy masnach yn rhwymedigaethau i dalu am nwyddau neu wasanaethau a gafodd eu caffael fel rhan o gwrs cyffredin busnes gan gyflenwyr. Caiff cyfrifon taladwy eu dosbarthu fel rhwymedigaethau cyfredol os yw taliad yn ddyledus o fewn un flwyddyn neu lai. Caiff symiau taladwy masnach eu cydnabod i ddechrau ar bris trafodion ac wedyn eu mesur ar gost wedi ei amorteiddio yn defnyddio'r dull llog gweithredol.

Caiff rhwymedigaethau ariannol eu dosbarthu yn ôl sylwedd y trefniadau contractiol yr ymrwymir iddynt.

**Dadgydnabod rhwymedigaethau ariannol**
Caiff rhwymedigaethau ariannol eu dadgydnabod pan ddaw goblygiadau contractiol y cwmni i ben neu y cânt eu cyflawni neu eu canslo.

## 2. DYFARNIADAU CYFRIFEG CRITIGOL A FFYNONELLAU ALLWEDDOL O ANSICRWYDD AMCANGYFRIF

**Dyfarniadau rheoli sylweddol a ffynonellau allweddol o ansicrwydd amcangyfrif**
Mae paratoi'r datganiadau ariannol yn ei gwneud yn ofynnol i reolwyr wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar gymhwyso polisïau a symiau asedau a rhwymedigaethau, incwm a threuliau a adroddwyd. Mae'r amcangyfrifon a'r tybiaethau cysylltiedig yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a gwahanol ffactorau eraill y credir eu bod yn rhesymol yn yr amgylchiadau. Mae canlyniadau hyn yn ffurfio'r sail dros wneud y dyfarniadau am werthoedd cario asedau a rhwymedigaeth nad ydynt yn amlwg ar unwaith o ffynonellau eraill. Gall canlyniadau gwirioneddol wahaniaethu o'r amcangyfrifon hyn.

Caiff amcangyfrifon a'r tybiaethau sylfaenol eu hadolygu ar sail barhaus. Caiff diwygiadau i amcangyfrifon cyfrifeg eu cydnabod yn y cyfnod y caiff yr amcangyfrif ei ddiwygio ac unrhyw gyfnodau yn y dyfodol yr effeithir arnynt.

**Dyfarniadau rheoli sylweddol**
Mae'r dilynol yn ddyfarniadau rheoli wrth gymhwyso polisïau cyfrifeg yr elusen sydd â'r effaith mwyaf sylweddol ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol.

<u>Darpariaethau</u>
Caiff darpariaethau eu cydnabod pan mae gan yr elusen rwymedigaeth gyfredol (cyfreithiol neu adeiladol) fel canlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol. Mae'n debygol y bydd angen i'r elusen setlo'r rhwymedigaeth, a gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.

Mae'r darpariaethau hyn angen amcangyfrif gorau rheolwyr o'r gostau a geir yn seiliedig ar ofynion deddfwriaethol a chontractiol. Yn ychwanegol, mae angen dyfarniad rheolwyr ar amseriad y llif arian a'r cyfraddau gostyngiad a ddefnyddiwyd i sefydlu gwerth presennol net y rhwymedigaethau.

<u>Cynllun pensiwn budd diffiniedig</u>
Mae gan yr elusen rwymedigaeth i dalu buddion pensiwn i rai cyflogeion. Mae cost y buddion hyn a gwerth presennol yr ased neu rwymedigaeth yn dibynnu ar nifer o ffactorau, yn cynnwys disgwyliad oes, cynnydd cyflogau, prisiad asedau a chyfradd gostyngiad bondiau corfforaethol. Mae rheolwyr yn amcangyfrif y ffactorau hyn wrth benderfynu'r ased pensiwn neu rwymedigaeth net yn y fantolen yn ogystal â phriodolder y gydnabyddiaeth o unrhyw ased. Mae'r tybiaethau yn adlewyrchu profiad hanesyddol a thueddiadau cyfredol.



parhad ...

## 3. CYFRANIADAU A CHYMYNRODDION

| | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Cymorth rhodd | 31,900 | 3,397 |

## 4. GWEITHGAREDDAU MASNACHU ERAILL

| | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Ail-godi Polisi ac Ymchwil | 54,072 | 45,816 |

Caiff incwm masnachu ei gynhyrchu o weithgaredd yr is-gwmni.

## 5. INCWM BUDDSODDI

| | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Llog cyfrif adnau | 51,305 | 28,533 |

## 6. INCWM O WEITHGAREDDAU ELUSENNOL

| | | 2025 | 2024 |
|---|---|---|---|
| | Gweithgaredd | £ | £ |
| Ffioedd aelodaeth | Gweithgareddau elusennol | 1,638,407 | 1,560,871 |
| Ffioedd cyrsiau hyfforddi | Gweithgareddau elusennol | 7,570 | 8,650 |
| Incwm marchnata a ffioedd cynhadledd | Gweithgareddau elusennol | 244,251 | 192,734 |
| Contractau affinedd | Gweithgareddau elusennol | 16,091 | 11,033 |
| Incwm amrywiol | Gweithgareddau elusennol | 6,792 | 14,676 |
| Incwm secondiad | Gweithgareddau elusennol | - | 9,393 |
| Yswiriant rhwymedigaeth cyfarwyddwyr a swyddogion | Gweithgareddau elusennol | 70,953 | 99,835 |
| | | 1,984,064 | 1,897,192 |

## 7. CODI CRONFEYDD

| **Gweithgareddau masnachu eraill** | **2025** | **2024** |
|---|---|---|
| | **£** | **£** |
| Costau staff | 41,505 | 37,175 |
| Gorbenion – cyffredinol | 12,567 | 8,641 |
| | 54,072 | 45,816 |



parhad...

## 8. COSTAU GWEITHGAREDDAU ELUSENNOL

| | Costau Uniongyrchol £ | Costau cymorth (gweler nodyn 9) £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|
| Gweithgareddau elusennol | 1,657,048 | 198,734 | 1,855,782 |

## 9. COSTAU CYMORTH

| | Arall £ | Costau cymorth £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|
| Gweithgareddau elusennol | 172,734 | 26,000 | 198,734 |

Mae'r costau cymorth, a gynhwysir yn yr uchod, fel sy'n dilyn:

| | 2025 Gweithgareddau elusennol £ | 2024 Cyfanswm gweithgareddau £ |
|---|---|---|
| Costau technoleg gwybodaeth | 42,919 | 43,263 |
| Ffioedd ymgynghori a phroffesiynol | 112,896 | 76,431 |
| Costau banc | 956 | 553 |
| Ffioedd archwilio | 15,963 | 11,726 |
| Llog ar rwymedigaethau cynllun pensiwn | 26,000 | 25,000 |
| | 198,734 | 156,973 |

## 10. INCWM/(GWARIANT) NET

Caiff incwm/(gwariant) net ei nodi ar ôl codi tâl/(credydu):

| | 2025 £ | 2024 £ |
|---|---|---|
| Dibrisiant – asedau a berchnogir | 9,000 | 13,314 |
| Diffyg ar waredu asedau sefydlog | - | 845 |
| Amorteiddio meddalwedd cyfrifiadurol | 3,306 | 3,306 |
| Ffi Archwilio Allanol | 15,963 | 11,726 |

## 11. CYDNABYDDIAETH ARIANNOL A BUDDION YMDDIRIEDOLWYR

Nid oedd unrhyw gydnabyddiaeth ariannol neu fuddion eraill i ymddiriedolwyr am y flwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2025 nac am y flwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2024.

**Treuliau ymddiriedolwyr**

Cafodd treuliau teithio o £1,768 (2024: £138) eu had-dalu i 5 (2024: 1) ymddiriedolydd yn y flwyddyn.



parhad ...

## 12. COSTAU STAFF

| | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Cyflogau | 966,178 | 869,547 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 108,426 | 107,786 |
| Costau pensiwn eraill | 71,735 | 57,988 |
| | 1,146,339 | 1,035,321 |

Nifer cyfartalog misol cyflogeion yn ystod y flwyddyn oedd:

| | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Canolog | 4 | 4 |
| Cyfathrebu | 2 | 3 |
| Polisi a Gwasanaethau Aelodau | 12 | 13 |
| Digwyddiadau | 1 | 1 |
| | 19 | 21 |

Nifer y cyflogeion yr oedd eu buddion cyflogeion (ac eithrio costau pensiwn cyflogwyr) yn fwy na £60,000 oedd:

| | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| £60,001 - £70,000 | 1 | - |
| £80,001 - £90,000 | 1 | 1 |
| £110,001 - £120,000 | - | 1 |
| £120,001 - £130,000 | 1 | - |
| | 3 | 2 |

Mae'r costau cyflog yn cynnwys taliadau dileu swydd yn gyfanswm o £17,490. Fel ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol roedd £17,490 yn parhau yn ddyledus.

Roedd y taliadau i'r aelod o staff ar y cyflog uchaf yn £120,468 (2024: £115,183).

Ar ddiwedd y flwyddyn gwnaed benthyciadau i aelodau eraill o staff er mwyn cerbydau yn gyfanswm o £dim (2024: £8,500).

Yn ystod y flwyddyn roedd cyfanswm y buddion i gyflogeion a gafwyd gan bersonél rheoli allweddol yn gyfanswm o £654,312 (2024: £508,913). Personél rheoli allweddol Cartrefi Cymunedol Cymru yw ei Uwch Grŵp Rheoli.

Mae CHC yn cyfrannu at bolisïau pensiwn cyfraniad diffiniedig ar gyfer cyflogeion cymwys. Roedd cyfraniadau cyflogwyr yn daladwy am y flwyddyn yn gyfanswm o £71,735 (2024: £50,361).

## 13. CYMHARWYR AR GYFER Y DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL

| | Cronfeydd heb gyfyngiad | Cronfeydd â chyfyngiad | Cyfanswm cronfeydd |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| **INCWM A GWADDOLION O** | | | |
| Cyfraniadau a chymynroddion | 3,397 | - | 3,397 |
| **Gweithgareddau elusennol** | | | |
| Gweithgareddau elusennol | 1,897,192 | - | 1,897,192 |
| Gweithgareddau masnachu eraill | 45,816 | - | 45,816 |
| Incwm buddsoddi | 28,533 | - | 28,533 |
| **Cyfanswm** | 1,974,938 | - | 1,974,938 |

**GWARIANT AR**



parhad...

## 13. CYMHARWYR AR GYFER Y DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL - parhad

| | Cronfeydd heb gyfyngiad £ | Cronfeydd â chyfyngiad £ | Cyfanswm cronfeydd £ |
|---|---|---|---|
| Codi cronfeydd | 45,816 | - | 45,816 |
| **Gweithgareddau elusennol** | | | |
| Gweithgareddau elusennol | 1,642,286 | 3,938 | 1,646,224 |
| **Cyfanswm** | 1,688,102 | 3,938 | 1,692,040 |
| **INCWM/(GWARIANT) NET** | 286,836 | (3,938) | 282,898 |
| **Enillion/(colledion) eraill cydnabyddedig** | | | |
| Enillion/(colledion) actiwaraidd ar gynlluniau budd diffiniedig | (149,000) | - | (149,000) |
| **Symudiad net mewn cronfeydd** | 137,836 | (3,938) | 133,898 |
| **CYSONI CRONFEYDD** | | | |
| Cyfanswm cronfeydd a ddygwyd ymlaen | 76,854 | 28,257 | 105,111 |
| **CYFANSWM CRONFEYDD A GARIWYD YMLAEN** | 214,690 | 24,319 | 239,009 |

## 14. TRETHIANT

Fel elusen gofrestredig, nid oes unrhyw rwymedigaeth i dreth ar incwm ac enillion a ddaw o fewn adran 505 Deddf Trethi 1988 neu a256 Deddf Trethiant Enillion Taladwy 1992, i'r graddau y cant eu gweithredu ar gyfer amcanion elusennol yr Elusen.

## 15. ASEDAU SEFYDLOG ANNIRIAETHOL

| | Meddalwedd cyfrifiadurol £ |
|---|---|
| **COST** | |
| Ar 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025 | 9,918 |
| **AMORTEIDDIO** | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 6,612 |
| Taladwy am flwyddyn | 3,306 |
| Ar 31 Mawrth 2025 | 9,918 |
| **GWERTH LLYFR NET** | |
| Ar 31 Mawrth 2025 | - |
| Ar 31 Mawrth 2024 | 3,306 |



parhad...

## 16. ASEDAU SEFYDLOG ANNIRIAETHOL

| | Gosodion a ffitiadau £ | Offer cyfrifiadurol £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|
| **COST** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025 | 908 | 37,658 | 38,566 |
| **DIBRISIANT** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 327 | 14,454 | 14,781 |
| Taladwy am flwyddyn | 116 | 8,884 | 9,000 |
| Ar 31 Mawrth 2025 | 443 | 23,338 | 23,781 |
| **GWERTH LLYFR NET** | | | |
| Ar 31 Mawrth 2025 | 465 | 14,320 | 14,785 |
| Ar 31 Mawrth 2024 | 581 | 23,204 | 23,785 |

## 17. BUDDSODDIADAU ASEDAU SEFYDLOG

| | Cyfranddaliadau mewn mentrau grŵp £ |
|---|---|
| **GWERTH MARCHNAD** | |
| Ar 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025 | 1 |
| **GWERTH LLYFR NET** | |
| Ar 31 Mawrth 2025 | 1 |
| Ar 31 Mawrth 2024 | 1 |

Nid oedd unrhyw asedau buddsoddi tu allan i'r Deyrnas Unedig.

Mae buddsoddiadau'r cwmni ar ddyddiad y fantolen yng nghyfalaf cyfranddaliadau cwmnïau yn cynnwys y canlynol:

**Cartrefi Cymunedol Cymru – Polisi ac Ymchwil Cyfyngedig**
Swyddfa gofrestredig: 7-8 Park Place, Caerdydd, CF10 3DP Rhif cwmni 06838729

| Dosbarth cyfranddaliad: | % daliad |
|---|---|
| Cyffredin | 100 |

## 18. DYLEDWYR: SYMIAU A DDAW'N DDYLEDUS O FEWN UN FLWYDDYN

| | 2025 £ | 2024 £ |
|---|---|---|
| Dyledwyr masnach | 788,472 | 1,000,945 |
| Dyledwyr eraill | 96,333 | 37,674 |
| | 884,805 | 1,038,619 |



parhad...

## 19. BUDDSODDIADAU ASEDAU CYFREDOL

| | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Arall | 500,000 | - |

| | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| **Cyfrif Marchnad Arian** | | |
| Dyddiad ad-dalu Mehefin 2025 – Llog crynswth 4.2% | 500,000 | - |

## 20. CREDYDWYR: SYMIAU A DDAW'N DDYLEDUS O FEWN UN FLWYDDYN

| | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Credydwyr masnach | 71,018 | 68,287 |
| Nawdd cymdeithasol a threthi eraill | 30,902 | 29,793 |
| Credydwyr pensiwn | 25,363 | 20,897 |
| Credydwyr eraill | 70,031 | 67,609 |
| | 197,314 | 186,586 |

## 21. CYTUNDEBAU PRYDLES

Daw isafswm taliadau prydles dan brydlesau gweithredu na fedrir eu canslo yn ddyledus fel sy'n dilyn:

| | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| O fewn un flwyddyn | - | 7,464 |

## 22. CRONIADAU AC INCWM GOHIRIEDIG

| | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 1,675,383 | 1,638,403 |

Symudiad yn y flwyddyn

| | | |
|---|---|---|
| Incwm gohiriedig ar 1 Ebrill 2024 | 1,638,403 | 1,561,471 |
| Rhyddhawyd o gyfnodau blaenorol | (1,638,403) | (1,561,471) |
| Adnoddau a ohiriwyd yn y flwyddyn | 1,675,383 | 1,638,403 |
| Incwm gohiriedig ar 31 Mawrth 2025 | 1,675,383 | 1,638,403 |



parhad...

## 23. SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD

| | Ar 1.4.24 £ | Symudiad net mewn cronfeydd £ | Trosglwyddo rhwng cronfeydd £ | Ar 31.3.25 £ |
|---|---|---|---|---|
| **Cronfeydd heb gyfyngiad** | | | | |
| Cronfa gyffredinol | 214,690 | 273,997 | (75,000) | 413,687 |
| Cronfa ddynodedig | - | - | 75,000 | 75,000 |
| | 214,690 | 273,997 | - | 488,687 |
| **Cronfeydd â chyfyngiad** | | | | |
| Cynllun Prif Awdurdod Tân | 24,319 | (6,510) | - | 17,809 |
| **CYFANSWM CRONFEYDD** | 239,009 | 267,487 | - | 506,496 |

Mae'r symudiad net mewn cronfeydd, a gynhwysir yn yr uchod, fel sy'n dilyn:

| | Adnoddau a ddaeth i mewn £ | Adnoddau a wariwyd £ | Enillion a cholledion £ | Symudiad mewn cronfeydd £ |
|---|---|---|---|---|
| **Cronfeydd heb gyfyngiad** | | | | |
| Cronfa Gyffredinol | 2,121,341 | (1,903,344) | 56,000 | 273,997 |
| **Cronfeydd â chyfyngiad** | | | | |
| Cynllun Prif Awdurdod Tân | - | (6,510) | - | (6,510) |
| **CYFANSWM CRONFEYDD** | 2,121,341 | (1,909,854) | 56,000 | 267,487 |

**Cymharwyr ar gyfer symudiad mewn cronfeydd**

| | Ar 1.4.23 £ | Symudiad net mewn cronfeydd £ | Ar 31.3.24 £ |
|---|---|---|---|
| **Cronfeydd heb gyfyngiad** | | | |
| Cronfa Gyffredinol | 76,854 | 137,836 | 214,690 |
| **Cronfeydd â chyfyngiad** | | | |
| Cynllun Prif Awdurdod Tân | 28,257 | (3,938) | 24,319 |
| **CYFANSWM CRONFEYDD** | 105,111 | 133,898 | 239,009 |



parhad ...

**23. SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD – parhad**

Mae symudiad net cymharol mewn cronfeydd, a gynhwysir yn yr uchod, fel sy'n dilyn:

| | Adnoddau a ddaeth i mewn £ | Adnoddau a wariwyd £ | Enillion a cholledion £ | Symudiad mewn cronfeydd £ |
|---|---|---|---|---|
| **Cronfeydd heb gyfyngiad** | | | | |
| Cronfa Gyffredinol | 1,974,938 | (1,688,102) | (149,000) | 137,836 |
| **Cronfeydd â chyfyngiad** | | | | |
| Cynllun Prif Awdurdod Tân | - | (3,938) | - | (3,938) |
| **CYFANSWM CRONFEYDD** | 1,974,938 | (1,692,040) | (149,000) | 133,898 |

Mae sefyllfa gyfun blwyddyn gyfredol 12 mis a blwyddyn flaenorol 12 mis fel sy'n dilyn:

| | Ar 1.4.23 £ | Symudiad net mewn cronfeydd £ | Trosglwyddo rhwng cronfeydd £ | Ar 31.3.25 £ |
|---|---|---|---|---|
| **Cronfeydd heb gyfyngiad** | | | | |
| Cronfa Gyffredinol | 76,854 | 411,833 | (75,000) | 413,687 |
| Cronfa ddynodedig | - | - | 75,000 | 75,000 |
| | 76,854 | 411,833 | - | 488,687 |
| **Cronfeydd â chyfyngiad** | | | | |
| Cynllun Prif Awdurdod Tân | 28,257 | (10,448) | - | 17,809 |
| **CYFANSWM CRONFEYDD** | 105,111 | 401,385 | - | 506,496 |

Mae symudiad net cyfun blwyddyn gyfredol 12 mis a blwyddyn flaenorol 12 mis mewn cronfeydd, a gynhwysir yn yr uchod fel sy'n dilyn:

| | Adnoddau a ddaeth i mewn £ | Adnoddau a wariwyd £ | Enillion a cholledion £ | Symudiad mewn cronfeydd £ |
|---|---|---|---|---|
| **Cronfeydd heb gyfyngiad** | | | | |
| Cronfa Gyffredinol | 4,096,279 | (3,591,446) | (93,000) | 411,833 |
| **Cronfeydd â chyfyngiad** | | | | |
| Cynllun Prif Awdurdod Tân | - | (10,448) | - | (10,448) |
| **CYFANSWM CRONFEYDD** | 4,096,279 | (3,601,894) | (93,000) | 401,385 |

**Diben cronfeydd**

**Cronfa Ddynodedig** (heb gyfyngiad) – Cost wrth gefn staffio ar gyfer costau dileu swyddi a staffio ad-hoc.

**Cynllun Prif Awdurdod Tân** (â chyfyngiad) **–** Sefydlwyd y cynllun â chyfyngiad hwn i gefnogi darpariaeth diogelwch tân y sector cymdeithasau tai drwy gyngor gyda sicrwydd gan wasanaeth tân sengl.



parhad...

## 24. RHWYMEDIGAETHAU BUDD CYFLOGEION

**Yr Ymddiriedolaeth Pensiynau – Cynllun Pensiwn Tai Cymdeithasol (SHPS)**

Mae SHPS yn gynllun pensiwn cyflogwr sy'n darparu buddion i gyflogwyr heb fod yn gysylltiedig sy'n cymryd rhan. Caiff y cynllun ei ddosbarthu fel cynllun budd diffiniedig yn y Deyrnas Unedig. Caiff y cynllun ei gyfrif fel trefniant 'dyn olaf sy'n sefyll'. Felly mae pob cyflogwr yn atebol am oblygiadau cyflogwyr eraill sy'n cymryd rhan os na all y cyflogwyr hynny gyflawni eu cyfran o ddiffyg y cynllun yn dilyn gadael y cynllun. Mae'n ofyniad cyfreithiol i'r cyflogwyr sy'n cymryd rhan i gyflawni eu cyfran o ddiffyg y cynllun ar sail prynu blwydd-dal pan fyddant yn gadael y cynllun.

Mae'r symiau a gydnabyddir yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol fel sy'n dilyn:

| | Cynlluniau pensiwn budd diffiniedig | |
|---|---|---|
| | 2025 | 2024 |
| | £ | £ |
| Cost gwasanaeth cyfredol | - | - |
| Llog net o ased/rhwymedigaeth budd diffiniedig net | 22,000 | 21,000 |
| Cost gwasanaeth y gorffennol | - | - |
| Treuliau | 4,000 | 4,000 |
| | 26,000 | 25,000 |
| Adenilliad gwirioneddol ar asedau'r cynllun | (134,000) | (74,000) |

Mae newidiadau yng ngwerth presennol y rhwymedigaeth budd diffiniedig fel sy'n dilyn:

| | Cynlluniau pensiwn budd diffiniedig | |
|---|---|---|
| | 2025 | 2024 |
| | £ | £ |
| Rhwymedigaeth agoriadol budd diffiniedig | 2,991,000 | 2,985,000 |
| Cost llog | 144,000 | 143,000 |
| Treuliau | 4,000 | 4,000 |
| Colledion/(enillion) actiwaraidd o brofiadau cynllun | 104,000 | 27,000 |
| Buddion a dalwyd | (98,000) | (94,000) |
| Ailfesuriadau: | | |
| (Enillion)/colledion actiwaraidd o newidiadau mewn tybiaethau demograffig | - | (38,000) |
| (Enillion)/colledion actiwaraidd o newidiadau mewn tybiaethau ariannol | (416,000) | (36,000) |
| | 2,729,000 | 2,991,000 |

## 24. RHWYMEDIGAETHAU BUDD CYFLOGEION - parhad

Mae newidiadau yng ngwerth teg asedau cynllun fel sy'n dilyn:

| | Cynlluniau pensiwn budd diffiniedig | |
|---|---|---|
| | 2025 | 2024 |
| | £ | £ |
| Gwerth teg agoriadol asedau cynllun | 2,453,000 | 2,482,000 |
| Incwm llog | 147,000 | 139,000 |
| Adenilliad gwirioneddol ar asedau cynllun | 122,000 | 122,000 |
| Buddion a dalwyd | (98,000) | (94,000) |
| Adenilliad ar asedau cynllun (ac eithrio incwm llog) | (256,000) | (196,000) |
| | 2,368,000 | 2,453,000 |

Mae'r symiau a gydnabyddir mewn enillion a cholledion cydnabyddedig eraill fel :

| | Cynlluniau pensiwn budd diffiniedig | |
|---|---|---|
| | 2025 | 2024 |
| | £ | £ |
| (Enillion)/colledion actiwaraidd o newidiadau mewn tybiaethau demograffig | - | 38,000 |
| (Enillion)/colledion actiwaraidd o newidiadau mewn tybiaethau ariannol | 416,000 | 36,000 |
| Adenilliad ar asedau cynllun (ac eithrio incwm llog) | (256,000) | (196,000) |
| Enillion/(benthyciadau) actiwaraidd | (104,000) | (27,000) |
| | 56,000 | (149,000) |

Mae prif categorïau asedau cynllun fel canran o gyfanswm asedau cynllun fel sy'n canlyn:

| | Cynlluniau pensiwn budd diffiniedig | |
|---|---|---|
| | 2025 | 2024 |
| Ecwiti byd-eang | 11% | 10% |
| Cronfa cronfeydd rhagfantoli | 19% | 4% |
| Eiddo | 5% | 3% |
| Asedau tiriog | 12% | 10% |
| Credyd pensiwn | 12% | 41% |
| Credyd | 4% | 4% |
| Credyd gradd buddsoddiad | 3% | 1% |
| Arian | 1% | 6% |
| Incwm a sicrhawyd | 2% | 1% |
| Buddsoddiad a yrrwyd gan rwymedigaethau | 30% | 3% |
| Arall | 1% | 17% |
| | 100% | 100% |

Y prif dybiaethau actiwaraidd ar ddyddiad y Datganiad Sefyllfa Ariannol (a fynegwyd fel cyfartaleddau wedi eu pwysoli):

| | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| Cyfradd disgownt | 5.87% | 4.91% |
| Chwyddiant (RPI) | 3.08% | 3.12% |
| Chwyddiant (CPI) | 2.80% | 2.79% |
| Twf cyflog | 3.80% | 3.79% |



parhad...

## 25. RHWYMEDIGAETHAU WRTH GEFN

Cafodd yr elusen ei hysbysu gan yr Ymddiriedolaeth Pensiynau am yr amcangyfrif o ddyled cyflogwyr ar adael y Cynllun Pensiwn, yn seiliedig ar sefyllfa ariannol y cynllun fel ar 30 Medi 2024. Fel ar y dyddiad hwn, roedd dyled cyflogwr am yr elusen yn £1,106,011 (2024: £1,255,055). Nid oes gan yr elusen unrhyw fwriad o adael y Cynllun ar hyn o bryd.

Cawsom ein hysbysu gan Ymddiriedolydd Cynllun Budd Diffinedig SHPS ei fod wedi cynnal adolygiad o'r newidiadau a wnaed i fuddion y Cynllun dros y blynyddoedd a'r canlyniad yw fod ansicrwydd am rai o'r newidiadau hyn. Cynghorwyd yr Ymddiriedolydd i ofyn am eglurhad gan y Llys ar yr eitemau hyn. Dechreuodd y gwrandawiad Llys ar 12 Chwefror 2025, a ni ddisgwylir penderfyniad y Llys ynghynt na haf 2025. Ar ôl hyn, bydd yr Ymddiriedolydd a'i gynghorwyr yn ystyried y canlyniad ac yn cyfathrebu'r camau nesaf i gyflogwyr. Yn dibynnu ar ganlyniad y gwrandawiad, gall fod angen gofyn cwestiynau pellach i'r Llys i egluro rhai pwyntiau allweddol. Cydnabyddir y gallai hyn effeithio ar werth rhwymedigaethau'r Cynllun, ond nes y derbynnir cyfarwyddiadau'r Llys, nid yw'n bosibl gwybod beth yw effaith y mater hwn, yn neilltuol ar sail cyflogwr unigol, gydag unrhyw gywirdeb ar y pwynt hwn. Ni wnaed unrhyw addasiad i'r datganiadau ariannol yng nghyswllt y broblem bosibl.

## 26. DATGELIADAU PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Oherwydd natur gweithrediadau Cartrefi Cymunedol Cymru ac y daw ei aelodaeth o ystod eang o gymdeithasau tai, mae'n anochel y bydd trafodion yn digwydd gyda sefydliadau y gall aelod o Cartrefi Cymunedol Cymru fod â budd ynddynt. Caiff yr holl drafodion sy'n cynnwys sefydliadau y gall aelod fod â budd ynddynt eu cynnal ar hyd braich.

## 27. PARTI RHEOLI PENNAF

Nid yw'r ymddiriedolwyr yn ystyried fod unrhyw barti rheoli pennaf.

## 28. CYFALAF RHANDDALIADAU

Mae'r cwmni elusennol yn gyfyngedig drwy warant ac felly nid oes ganddo unrhyw gyfalaf cyfranddaliadau. Pe byddai'r cwmni elusennol yn cael ei ddirwyn i ben, mae rhwymedigaeth pob aelod wedi ei gyfyngu i £1.

## DATGANIAD MANWL O WEITHGAREDDAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN A DDIWEDDODD 31 MAWRTH 2025

| | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| **INCWM A GWADDOLION** | | |
| **Cyfraniadau a chymynroddion** | | |
| Cymorth rhodd | 31,900 | 3,397 |
| **Gweithgareddau masnachu eraill** | | |
| Ail-godi Polisi ac Ymchwil | 54,072 | 45,816 |
| **Incwm buddsoddi** | | |
| Llog cyfrif adnau | 51,305 | 28,533 |
| **Gweithgareddau elusennol** | | |
| Ffioedd aelodaeth | 1,638,407 | 1,560,871 |
| Ffioedd cyrsiau hyfforddiant | 7,570 | 8,650 |
| Incwm marchnata a ffioedd cynhadledd | 244,251 | 192,734 |
| Contractau affinedd | 16,091 | 11,033 |
| Incwm amrywiol | 6,792 | 14,676 |
| Incwm secondiad | - | 9,393 |
| Yswiriant rhwymedigaeth cyfarwyddwyr a swyddogion | 70,953 | 99,835 |
| | 1,984,064 | 1,897,192 |
| **Cyfanswm adnoddau a ddaeth i mewn** | 2,121,341 | 1,974,938 |
| **GWARIANT** | | |
| **Gweithgareddau masnachu eraill** | | |
| Cyflogau | 54,072 | 45,816 |
| **Gweithgareddau elusennol** | | |
| Cyflogau | 912,106 | 823,731 |
| Nawdd cymdeithasol | 108,426 | 107,786 |
| Pensiynau | 71,735 | 57,988 |
| Ardrethi a dŵr | 85 | - |
| Yswiriant | 80,049 | 108,210 |
| Ffôn | 8,973 | 10,562 |
| Argraffu, postio a deunyddiau papur | 3,161 | 4,070 |
| Amrywiol | 12,578 | 10,427 |
| Cyfrifon cynhwysfawr ac ardollau | 12,390 | 6,630 |
| Cyrsiau hyfforddiant | 3,000 | 2,400 |
| Marchnata a chynadleddau | 170,001 | 146,818 |
| Cysylltiadau cyhoeddus a chyfathrebu | 12,961 | 12,678 |
| Rhent ac yswiriant adeiladu | 17,023 | 11,406 |
| Teithio staff | 30,293 | 29,775 |
| Hyfforddi a recriwtio staff | 28,397 | 18,721 |
| Costau cyfieithu | 19,842 | 20,712 |
| Cyhoeddiadau a thanysgrifiadau | 8,709 | 9,786 |
| Costau cyfarfodydd a theithio’r Cyngor | 8,421 | 3,499 |
| Treuliau elusen staff | 563 | 540 |
| Gwasanaethau aelodau | 126,737 | 70,642 |
| Ymgynghoriaeth staff | 9,292 | 15,405 |
| Amorteiddio meddalwedd cyfrifiadurol | 3,294 | 3,306 |
| Cariwyd ymlaen | 1,648,036 | 1,475,092 |

Nid yw’r dudalen hon yn ffurfio rhan o’r datganiadau ariannol statudol

## DATGANIAD MANWL O WEITHGAREDDAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN A DDIWEDDODD 31 MAWRTH 2025

| | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| **Gweithgareddau elusennol** | | |
| Dygwyd ymlaen | 1,648,036 | 1,475,092 |
| Dibrisiant gosodion a ffitiadau | 128 | 145 |
| Dibrisiant offer cyfrifiadurol | 8,884 | 13,169 |
| Colled ar werthiant asedau sefydlog diriaethol | - | 845 |
| | 1,657,048 | 1,489,251 |
| **Costau cymorth** | | |
| **Arall** | | |
| Costau technoleg gwybodaeth | 42,919 | 43,263 |
| Ffioedd ymgynghori a phroffesiynol | 112,896 | 76,431 |
| Costau banc | 956 | 553 |
| Ffioedd archwilio | 15,963 | 11,726 |
| | 172,734 | 131,973 |
| **Costau cymorth** | | |
| Llog ar rwymedigaethau cynllun pensiwn | 26,000 | 25,000 |
| Cyfanswm adnoddau a wariwyd | 1,909,854 | 1,692,040 |
| **Incwm net** | 211,487 | 282,898 |

Nid yw'r dudalen hon yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol statudol

# Virtual Cabinet Portal Digital Signatures

## Digital Signature Verification

You can verify that this is a genuine Virtual Cabinet Document Portal signed document by uploading it to the following secure web page:

https://www.virtualcabinetportal.com/VerifySignedDocument

## Signature Dates and Times

All dates and times shown in the signatures below are expressed in Coordinated Universal Time (UTC), which is generally equivalent to GMT. You can find out more about UTC at the following web page:

http://www.virtualcabinetportal.com/WhatIsUTC

# Signature 1

Signed by Gerraint Oakley using authentication code Nlgwb0txXjzCo0JWYQ== at IP address 31.94.36.185, on 2025/10/23 17:42:10 Z.

Gerraint Oakley's e-mail address is: gerraint.oakley@platformhg.com.